**Cofnodion sydd heb eu cadarnhau o'r Cyfarfod Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Medi 2024**
**Cynhaliwyd yn 3.0, CQ2 ac yn electronig trwy Microsoft Teams**
**Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Nick Elliott | (NE) | Cadeirydd Dros Dro |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-gadeirydd y Bwrdd |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Stefanie Humphries (Sawl sy'n cadw'r cofnodion) | (LB) | Swyddog Cymorth y Bwrdd, Uned Busnes y Bwrdd |
| Tom Fowler | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu iechyd a Sgrinio |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (Gadawodd ar gyfer eitem 4.1) |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Ochr Staff |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |

Heb eu Cadarnhau

*Dechreuodd y cyfarfod am 11:00*

| **ICC 2024.09.26/1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Croesawodd NE bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi'r trafodion ar-lein.<br><br>**Nododd** y Bwrdd **yr ymddiheuriadau** a restrir uchod. | |
| **ICC 2024.09.26/2** | **Datganiadau o Fuddiant** |
| Gofynnodd NE am Ddatganiadau o Fuddiannau heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. Nid oedd unrhyw ddatganiadau eraill. | |
| **ICC 2024.09.26/3** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
| **ICC 2024.09.26/3.1** | **Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol** |
| Wrth gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr, cymerodd TC fod yr adroddiad yn gywir ac fe dynnodd sylw at rai uchafbwyntiau allweddol:<br><br>Diolchodd TC i'r timau am eu gwaith ar y Cynllun Strategol, sydd bellach wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Nododd TC y daw cymeradwyaeth i'r Cynllun Strategol â nifer o amodau atebolrwydd, sydd bellach wedi'u hymgorffori yn ein cynllun gwaith.<br><br>Amlygodd TC y diweddariad brech M a rhoddodd sicrwydd i'r Bwrdd nad oes achosion o frech M yn y DU ar hyn o bryd. Ychwanegodd TC fod llawer o waith parodrwydd yn digwydd ar draws y system yng Nghymru ac o fewn y sefydliad.<br><br>Tynnodd TC sylw at eitem 4, 'Cyfarfod Prif Weithredwyr Asiantaethau Iechyd y Cyhoedd y DU', a gynhaliwyd wyneb yn wyneb yn Belfast ym mis Awst ar gyfer y cyfarfod chwarterol. Ychwanegodd TC ei fod yn sesiwn dda a oedd yn ymdrin ag agenda eang a lluniwyd camau gweithredu defnyddiol ar gyfer y pedair gwlad.<br><br>Tynnodd TC sylw at y diweddariadau ar Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 y DU a diolchodd i'r tîm am eu gwaith ar y modiwlau. Ychwanegodd TC fod y tîm wedi bod yn gweithio ar baratoi nifer o ddatganiadau i gefnogi'r ymchwiliad ac mae'n debygol y bydd gofyn i gydweithwyr fynd i'r gwrandawiadau cyhoeddus sydd ar ddod.<br><br>Yn olaf, llongyfarchodd TC JM ar gael ei benodi'n Athro Gwadd yn y Ganolfan Iechyd ac Economeg a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) ym Mhrifysgol Bangor.<br><br>Gofynnodd TC i JM roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr enwebiadau a gafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yng Ngwobrau Fferylliaeth Cymru 2024 neithiwr. Dywedodd JM wrth y Bwrdd fod dau gais yn ymwneud â gwaith yr Is-adran Gofal Sylfaenol wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Fferylliaeth Cymru 2024, y ddau ar gyfer y Wobr Cynaliadwyedd mewn Gofal Iechyd. Roedd JW yn falch o gyhoeddi bod gwaith yr Is-adran Gofal Sylfaenol ar y cyd â Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) ar ddefnyddio a gwaredu anadlyddion ledled Cymru wedi ennill y Wobr Cynaliadwyedd. | |

Heb eu Cadarnhau

Diolchodd JM i'r tîm am eu gwaith ar hyn, a fydd yn lleihau faint o blastig a ddefnyddir wrth bresgripsiynu.

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chymerodd sicrwydd** o'r Adroddiad a'r trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd.

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.09.26/3.2** | **Adroddiad Perfformiad Integredig (Mis 4), Adroddiad Cyllid a Chofrestr Risg Strategol** |

Wrth gyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Integredig, gwahoddodd NE HG i gyflwyno'r datblygiadau allweddol i'r Bwrdd.

<u>Adroddiad Perfformiad Integredig</u>

- Eglurodd HG i'r Bwrdd fod fformat yr Adroddiad Perfformiad Integredig (IPR) wedi'i ailgynllunio a'i fod bellach wedi'i rannu'n dair adran; Llywodraethu ac Atebolrwydd, Cyflenwi Gwasanaethau a Chyflawni Strategaethau.
- Dywedodd HG wrth y Bwrdd ein bod yn dal i fireinio'r adrannau hyn ac yn gweithio drwy'r oresgyn yr heriau. Er enghraifft, yn adran 2 mae cwestiynau allweddol ynghylch pa mor berthnasol yw adroddiadau misol ar gyfer rhai o'r dangosyddion hyn. Rydym am i hyn fesur yr effaith.
- Nododd HG y bydd cam nesaf ailgynllunio'r adroddiad yn edrych ar y system fesur. Bydd yn ystyried sut rydym yn cysylltu canlyniadau cyffredinol ein strategaeth â'r adroddiad perfformiad hwn.
- Ychwanegodd HG ein bod yn gweithio ar fapiau llwybr ar gyfer pob blaenoriaeth er mwyn iddynt gyflawni 2035. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Rhagfyr fel y gall aelodau'r Bwrdd gyfrannu at y gwaith o gynllunio a llunio'r rheini ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Adran 1 - Llywodraethu ac Atebolrwydd**

- Aeth HG drwy bob adran o'r adroddiad ac fe gafwyd mewnbwn gan Weithredwyr eraill.
- Gofynnodd HG i NL roi sylwadau ar Adran 1. Tynnodd NL sylw at stori newyddion da, gan nodi ein bod bellach wedi cyrraedd y targed cydymffurfio ym maes arfarnu.
- Tynnodd PV sylw at adroddiad archwilio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, sy'n ddarn o waith ar y cyd rhwng BBU a QNAPS. Diolchodd a llongyfarchodd TC y tîm am ei waith ar hyn.
- Tynnodd CB sylw at y ffaith bod y broses ynghylch Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun wedi newid, ac rydym yn awr yn ceisio rheoli perfformiad o ran hynny i leihau'r amser y mae'n ei gymryd i ymateb iddynt. Ychwanegodd CB fod gwaith yn mynd rhagddo ar ddigwyddiadau hwyr, mae nifer o ddigwyddiadau'n ymwneud â phroblemau TG technegol a materion system, sydd wedi'u trafod gyda'r tîm TG ac mae datrysiad bellach yn ei le.

**Adran 2 - Cyflenwi Gwasanaethau**

Heb eu Cadarnhau

- Tynnodd HG sylw at y ffaith bod is-adrannau newydd yn Adran 2 sy'n rhoi sylw ar sail cyfarwyddiaeth i ni nad oedd ar gael yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Cododd TR fod y ffigyrau sgrinio ar gyfer canser y fron yn edrych yn frawychus a holodd a oedd hyn oherwydd ôl-groniadau Covid-19. Ymatebodd TF fod yr adferiad wedi canolbwyntio ar gynnig sgrinio'r fron i gyfranogwyr o fewn 3 blynedd i'w sgrinio diwethaf, ac roeddem yn disgwyl adfer erbyn chwarter 2 Blwyddyn Ariannol 2024/25, ac fe gyflawnwyd hyn. Ychwanegodd TF bod y dangosydd perfformiad ychydig yn wahanol gan nad yw'n cael ei gynnwys yn y ffigurau yma oherwydd ei fod yn cael ei adrodd wrth ei gipio. Dyma'r nifer o fenywod sydd angen asesiad y cynigir apwyntiad iddynt o fewn tair wythnos i'r sgrinio. 90% yw'r safon y dylem fod yn ei chyrraedd ar gyfer hynny. Nid ydym yn cyrraedd y safon ar hyn o bryd. Yr amser aros cyfartalog ledled Cymru yw 4.6 wythnos. Ychwanegodd TF fod gwaith yn mynd rhagddo ar y meysydd hyn. Awgrymodd TC gynnwys y dosbarthiad a'r esboniad yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig (IPR) nesaf. Cytunodd TF. Gofynnodd NE i DC godi hyn gyda phwyllgor QSIC.
  **CAM GWEITHREDU: TF a DC.**

- Holodd CJ pam mae'n ymddangos bod gostyngiad yn yr adolygiad 16 wythnos o'r Rhaglen Genedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS). Ymatebodd JM fod y cyfnod 16 wythnos bob amser yn bryder. Rydym wedi gweithredu traciwr ymgysylltu a fydd yn ei wirio. Esboniodd JM nad ydym yn gwybod a yw llai o bobl yn cymryd rhan yn yr adolygiadau oherwydd bod pobl wedi rhoi'r gorau i wneud ymarfer corff. Mae angen i ni olrhain nifer y bobl sy'n ei wneud yn gyson. Ychwanegodd JM fod nifer o faterion y mae angen canolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau bod NERS yn cyrraedd y targedau.

**Adran 3 - Cyflawni'r Strategaeth**

- Eglurodd HG mai dyma'r tro cyntaf i aelodau'r Bwrdd weld Adran 3 o'r adroddiad sy'n cyflwyno ein cyflawniad o'r cerrig milltir strategol. Ychwanegodd HG fod 90% o'r cerrig milltir eisoes wedi'u cyflawni neu eu bod ar y trywydd iawn i'w cyflawni a bod 7 carreg filltir goch. Cafwyd ceisiadau i newid 6 o'r rhain, a gymeradwywyd gan y gweithredwyr y mis diwethaf.
- Tynnodd HG sylw at y ffaith bod y Rhaglenni Newid Strategol wedi'u cyflwyno ac wedi'u diffinio i haenau 1 a haen 2, sy'n cael eu hasesu ar Asesiad Hyder Cyflawni (DCA) misol.
- Rhoddodd aelodau'r Bwrdd ganmoliaeth i fformat newydd yr adroddiad ac roeddent yn meddwl bod diffinio'r adroddiad yn 3 adran yn ddefnyddiol.
- Mynegodd TR bryder nad oedd yr adroddiad yn tynnu sylw clir at anghydraddoldebau. Eglurodd SA fod gennym grŵp Anghydraddoldebau Iechyd ar waith ar draws y sefydliad, sydd wedi bod yn nodi ein blaenoriaethau ac mae data yn un o'r blaenoriaethau hynny. Parhaodd SA fod angen i ni nodi pa fylchau sydd ar goll yn awr a datblygu hyn. Ychwanegodd HG y byddwn yn ystyried ymgorffori hyn yn ystod cam 3 o ddatblygu'r adroddiad hwn.
- Awgrymodd TC y dylid cael adran bwrpasol yn yr adroddiad ar anghydraddoldebau. Cytunodd TR a NE y byddai hynny'n syniad da.

Heb eu Cadarnhau

**Adroddiad Cyllid**

Cyflwynodd HG yr adroddiad ac eglurodd i'r Bwrdd ei fod ef a TC wedi gweithio gyda'r Swyddogion Gweithredol eraill yn unigol dros yr ychydig wythnosau diwethaf ar eu sefyllfa ariannol fisol a'u cynlluniau ar gyfer diwedd y flwyddyn ac rydym yn hyderus y byddwn yn mantoli'r gyllideb. Ychwanegodd HG ein bod ar y blaen o ran cynllunio ar ein Cynllun Cyfalaf, a bod Llywodraeth Cymru wedi cael sicrwydd ar hynny. Dywedodd HG wrth y Bwrdd fod rhai eitemau sy'n destun trafod gyda Llywodraeth Cymru megis y costau nad ydynt yn cael eu had-dalu, sy'n fwy na'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl, er ein bod yn hyderus na fydd hyn yn effeithio ar ein sefyllfa ni.

Cwestiynodd CJ y tanwariant. Ymatebodd HG fod dwy elfen i hyn. Yn gyntaf, y llithriad hyd yma, sef yr hyn a drafodwyd gyda'r Gweithredwyr i'w unioni. Yn ail, rydym yn asesu a fydd rhywbeth yn codi a fydd yn effeithio ar ein sefyllfa ariannol. Mae gennym gronfa wrth gefn ar hyn o bryd nad ydym yn debygol o fod ei hangen. Dywedodd HG fod sgyrsiau'n cael eu cynnal i benderfynu ar sut y gallem wario'r arian wrth gefn ac rydym yn gobeithio rhoi'r cynllun cyfan at ei gilydd erbyn dydd Gwener nesaf.

**Ystyriodd** y Bwrdd Adroddiad Perfformiad Integredig, Adroddiad Cyllid a Chofrestr Risg Strategol y sefydliad a derbyniodd **sicrwydd** arnynt.

| **ICC 2024.09.26/3.3** | **Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion Pwyllgorau** |
|---|---|

Cymerodd NE bod y papurau yn gywir a nododd nad oedd cyfarfod QSIC yr wythnos ddiwethaf (16 Medi 2024) wedi'i gynnwys yn y papurau a gofynnodd i DC roi diweddariad llafar amdano.

Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (QSIC)
Dywedodd DC wrth y Bwrdd fod y pwyllgor wedi cael sicrwydd yn y cyfarfod ar 16 Medi ynghylch y canlynol; Adroddiad Blynyddol Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru, Cynllun Gweithredu TB ac Adroddiad Rheoli Meddyginiaethau QSIC. Nododd DC fod diweddariad wedi'i roi ar gynnydd Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran ymgysylltu â'n hadolygiad o wasanaethau, a chawsom archwiliad dwfn ar y Rhaglenni Iechyd y Geg a Deintyddol.

Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Clinigol (ACGC)
Dim sylwadau gan ACGC.

Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (PODC)
Dim sylwadau gan PODC.

Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd (KRIC)
Tynnodd SG sylw at y gwaith academaidd ar Iechyd y Cyhoedd, y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei arwain, ac ychwanegodd bryder nad yw Cymru'n gwneud yn dda yn gyffredinol pan edrychwch ar ganlyniadau'r adolygiad sydd wedi'i wneud. Awgrymodd SG fod angen i ni gydweithio ar draws y system i geisio gwella safon Iechyd y Cyhoedd. Ychwanegodd SG fod y gwaith academaidd yn rhoi tystiolaeth i ni ei rhoi ar waith ac yn ein helpu i ddatblygu ein polisïau a'n strategaeth. Nododd SG fod y gwaith sy'n mynd rhagddo yn wych, ond mae angen i ni feddwl sut mae symud hyn yn ei flaen. Cytunodd NE. Sicrhaodd IB y Bwrdd fod

Heb eu Cadarnhau

cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Is-gangellorion yr wythnos nesaf i greu strategaeth a gweledigaeth mewn partneriaeth i symud y gwaith hwn yn ei flaen.

**Nododd** y Bwrdd yr adroddiad a **chymerodd sicrwydd** o'r cynnwys a'r diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod.

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.09.26/3.4** | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |

Cymerodd CB fod y papurau yn gywir ac fe gyflwynodd uchafbwyntiau'r adroddiad ac eglurodd y diweddariadau sydd yn yr adroddiad ers yr adroddwyd ddiwethaf i'r Bwrdd. Atgoffodd CB y Bwrdd fod y papur yn cael ei gyflwyno er sicrwydd ynghylch rheoli a goruchwylio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Tynnodd CB sylw at y ffaith bod 3 o'r risgiau'n ymwneud â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a bod y rhain wedi'u gwahanu ar gofrestr y mis hwn gan fod gwahanol risgiau'n cael eu mynegi ar gyfer pob un o'r rhain. Sicrhaodd CB y tîm fod y tîm Gweithredol wedi gwneud llawer o waith ar hyn a bod datrysiadau wedi'u hystyried i liniaru'r risgiau hyn. Nododd CB y bydd y datrysiadau arfaethedig yn dod i BET a PODC yn ystod y 2 fis nesaf.

Diolchodd NE i CB a'r tîm am eu gwaith ar hyn ac fe gefnogodd gamau nesaf y broses.

Nododd NE **sicrwydd** y Bwrdd o'r adroddiad.

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.09.26/4** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **ICC 2024.09.26/4.1** | **Cofnodion Bwrdd a Chofnod o'r Camau Gweithredu o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf** |

**Cymeradwyodd** y Bwrdd Gofnodion 25 Gorffennaf 2024 fel cofnodion cywir o'r cyfarfod, a chau'r camau gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod Gweithredu.

**Ystyriodd** y Bwrdd y Cofnod Gweithredu. Roedd un cam gweithredu penodol yr oedd angen ei adolygu, a oedd yn ymwneud â thynnu'r offeryn diagnostig diabetig yn ôl. Darparodd IB ddiweddariad, ac eglurodd ein bod yn gweithio'n agos gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) i fynd i'r afael â'r mater a bod asesiad risg wedi'i gwblhau ac wedi'i ddogfennu'n llawn. Mae IB yn aros am ddiweddariadau pellach gan IGDC ynghylch y datrysiad a byddai'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru ymhellach.

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.09.26/4.2** | **Polisi Safonau Ymddygiad** |

Cyflwynodd PV y papur ac eglurodd fod y Polisi Safonau Ymddygiad diwygiedig a'r ddogfen ategol, sef y broses, wedi dod gerbron y Bwrdd heddiw i'w cymeradwyo. Esboniodd PV fod y polisi yn rhan o'n hymrwymiad fel corff GIG i fod â'r safonau ymddygiad uchaf. Ychwanegodd PV fod hwn yn bolisi sy'n bodoli eisoes sydd ar fin cael ei adnewyddu ac sydd wedi'i adolygu trwy ein cronfa ddata ymgynghori lle mae staff wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y polisi.

**Ystyriodd** a **chymeradwyodd** y Bwrdd y Polisi Safonau Ymddygiad.

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.09.26/5** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **ICC 2024.09.26/5.1** | **Adroddiad Preifat y Cadeirydd** |

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad Preifat y Cadeirydd.

Heb eu Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.09.26/5.2** | **Blaengynllun y Bwrdd** |
| **Nododd** y Bwrdd Flaengynllun y Bwrdd. | |
| **ICC 2024.09.26/5.3** | **Papurau Preifat y Bwrdd** |
| Dim. | |
| **ICC 2024.09.26/6** | **Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf** |
| Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod ac atgoffodd y gwylwyr ar-lein am ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a fydd yn cael ei gynnal y prynhawn yma.<br><br>Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Tachwedd 2024. | |
| Daeth y cyfarfod i ben am | |

Heb eu Cadarnhau